# Canllaw i Arogleuon Carthion

*(Sewage Smells Guide)*




## Ein Canllaw i Gwsmeriaid

Rydym wedi creu'r canllaw hwn i ddarparu cymorth ac arweiniad ichi os oes gennych unrhyw bryderon am arogleuon carthion yn eich eiddo neu gerllaw iddo. Byddwn yn amlinellu'n cyfrifoldeb yn Hafren Dyfrdwy ac yn egluro'r hyn y gallwn ei wneud i'ch cynorthwyo ynglŷn â'r mater hwn.

## Pam y gallwn i fod yn arogli carthion?

Rydym yn sylweddoli y gall arogli carthion fod yn destun pryder ac yn annymunol ond yn aml nid yw'n ddim byd i bryderu amdano. Isod, mae yna ychydig o wybodaeth am pam y gallech fod yn arogli carthion a'r hyn y gallwch ei wneud i ddatrys y sefyllfa.

## Aroglau yn eich cartref...

### Daw'r aroglau o'r tu mewn i fy eiddo – beth sy'n peri hyn?

Os yw aroglau y tu mewn i'r eiddo, fe allai hyn ddynodi problem ddichonol â'r pibelli gwastraff mewnol preifat. Gallai enghreifftiau o'r achosion posibl fod yn:

1. Offer domestig wedi'u gosod yn anghywir, fel peiriannau golchi a pheiriannau golchi llestri.

2. Peiriannau golchi a pheiriannau golchi llestri nas defnyddir yn aml.

3. Problem â'r trapiau ar sinciau, basnau ymolchi, hambyrddau baddonau a chawodydd.

4. Pibelli awyrellu carthion mewnol wedi'u gosod yn anghywir neu'n ddiffygiol.

5. Siambr archwilio y tu mewn i heulfan neu estyniad ar ddraen breifat.

### Pam mae'r aroglau, yn fy nghartref, yn fwy amlwg ar rai adegau neilltuol o'r dydd?

Os yw'r aroglau yn eich eiddo'n fwy amlwg ar rai adegau neilltuol o'r dydd, yn enwedig yn y bore, fe allai hyn yn aml gael ei beri oherwydd y gall seliau trapiau a gaiff eu colli ar bethau fel hambyrddau cawodydd a sinciau ddigwydd drwy'r nos neu pan na fônt yn cael eu defnyddio am gyfnod maith o amser. Yn aml, fe sylwn ar yr aroglau o'r offer hyn y peth cyntaf yn y bore neu'r peth diwethaf yn y nos cyn mynd i'r gwely, gan y gall yr amser rhwng defnyddio fod tua 14 awr a throsodd.

### Beth a ddylwn ei wneud i gael gwared â'r aroglau hwn?

Gellir defnyddio cynnyrch domestig arferol, fel a gynghorir gan weithgynhyrchydd eich offer. Os nad yw'r aroglau yn diflannu, cysylltwch â phlymwr, os gwelwch yn dda. Bydd plymwr yn gallu archwilio'ch offer i ganfod gwreiddyn y broblem aroglau.

## Aroglau y tu allan i'ch cartref...

### Beth a wnaf os yw'r aroglau y tu allan i fy eiddo?

Os yw'r aroglau yn agos at eich eiddo neu wrth ei ymyl, mae hyn yn dynodi y gallai fod yna broblem â'r garthffos neu'r ddraen gerllaw – cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us, gan ddefnyddio sgwrsio byw, cyfryngau cymdeithasol, e-bost neu cysylltwch â ni drwy'n ffonio ar 0800 085 8033. Fe allwch bob amser ysgrifennu atom yn - Hafren Dyfrdwy, PO Box 507, Darlington, DL1 8XF, ac fe wnawn gynghori ynglŷn â sut orau y gallwn eich cynorthwyo ynglŷn â hyn. Mae manylion mwy o wybodaeth am y broses hon yn ddiweddarach yn y canllaw hwn.

**Nodwch, os gwelwch yn dda: Nid carthion yw'r hyn y gallwch ei arogli bob amser, weithiau mae pobl wedi arogli wyau drwg. Os ydych yn arogli wyau drwg, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, ac fe wnawn gynnal rhagor o ymchwiliadau yn eich cartref.**

## Credaf fod yn aroglau'n dod o safle trin carthion gerllaw – beth a allaf ei wneud?

Yn Hafren Dyfrdwy, rydym yn ymfalchïo mewn arddel lefelau uchel o safonau trin carthion. Fodd bynnag, os ydych yn byw wrth ymyl safle trin carthion neu orsaf bwmpio, yna mae'n bosibl y gall y cyfleusterau hyn weithiau gynhyrchu aroglau. Mae llawer o'n safleoedd trin carthion wedi bodoli ers blynyddoedd lawer ond dros amser, oherwydd twf y boblogaeth, fe adeiladir tai yn nes ac yn nes at y safleoedd hyn. Mae'r timau safleoedd yn gweithio'n galed i gyfyngu hyd yr eithaf ar aroglau, ac rydym wedi bod yn buddsoddi ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn triniaethau a thechnolegau lleihau aroglau. Fodd bynnag, weithiau, yn enwedig yn ystod hafau poethion iawn ac amgylchiadau tywydd anarferol eraill, fe all y gweithfeydd trin hyn ddrewi yn amlach. Os ydych yn arogli'r gwaith trin lleol, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us, ac fe wnawn drefnu bod y safle'n cael ei brofi i sicrhau ei fod yn gweithio yn iawn.

## Nid wyf yn sicr o le y daw'r aroglau - sut y gallaf wybod?

Os ydych wedi sylwi bod yna aroglau carthion, mae yna brawf cyflym y gallwch ei wneud i ganfod o le mae'r arogl yn dod.

1. Llenwch wydryn â dŵr o'r tap lle rydych wedi sylwi ar yr aroglau neu flas carthion.
2. Ewch â'r gwydryn o ddŵr hwnnw i ystafell arall yn eich cartref.
3. Aroglwch y dŵr eto i wirio a yw'r aroglau wedi diflannu.

Os yw'r aroglau wedi diflannu, fe fyddai hyn yn awgrymu bod yr aroglau'n dod o sinc neu ddraen, yn hytrach na'r dŵr ei hun. Os felly, fe allwch ddefnyddio cynnyrch glanhau draeniau domestig i glirio neu i ddadflocio'r ddraen, a ddylai ddatrys y broblem.

Os yw'r aroglau'n dal i fodoli yn eich dŵr, yna cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda www.hdcymru.co.uk/help-andcontact/contact-us, gan ddefnyddio sgwrsio byw, cyfryngau cymdeithasol, e-bost neu cysylltwch â ni drwy'n ffonio ar 0800 085 8033, ac fe wnawn gynghori sut y gallwn eich cynorthwyo orau ynglŷn â'r sefyllfa hon.

## Sut rwyf yn gwybod beth yw carthffos gyhoeddus (cyfrifoldeb Hafren Dyfrdwy) a beth yw draeniau preifat (fy nghyfrifoldeb i)?

Mae yna ddwy brif fath o garthffosydd - preifat a chyhoeddus. Y chi sy'n gyfrifol am garthffosydd preifat a ninnau sy'n gyfrifol am y carthffosydd cyhoeddus. Mae yna hefyd draeniau a rhigolau priffyrdd y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt. Mae'n bwysig deall pwy sy'n gyfrifol am gynnal ac atgyweirio pibelli a draeniau carthffosydd, yn enwedig os â rhywbeth o chwith. Os hoffech wybodaeth fanwl am y pibelli a'r carthffosydd yn eich ardal, fe allwch ofyn am fap o garthffosydd gennym ni drwy fynd i'n gwefan www.hdcymru.co.uk/building-and-developing/maps/request-a-water-sewer-map.

**Cyfrifoldeb perchennog y cartref a defnyddiwr y gwastraff:** Perchennog y cartref sy'n gyfrifol am gynnal y rhan fwyaf o bibelli carthffosydd ar derfyn eiddo - fe elwir hyn yn eich draeniau preifat. Os ydych yn rhentu'ch cartref, yna eich landlord neu'ch asiant gosod eiddo fydd yn gyfrifol am y pibelli hyn. Mae draen breifat yn cyflenwi dim ond un eiddo ac mae o fewn terfyn yr eiddo. Cyfrifoldeb perchennog y cartref yw cynnal y pibelli hyn a chlirio unrhyw rwystrau drwy geisio cymorth plymwr.

**Cyfrifoldeb y Cwmni Dŵr:** Mae'r carthffosydd mawrion y tu allan i derfyn eich eiddo, er enghraifft, o dan y ffordd neu lwybr troed, yn eiddo i ni ac y ni sy'n eu hatgyweirio a'u cynnal; carthffosydd cyhoeddus yw'r rhain. Y ni hefyd yw perchnogion y rhan fwyaf o'r darnau o'r pibelli a'r draeniau carthffosydd rydych yn eu rhannu â'ch cymdogion. Fodd bynnag, os adeiladwyd eich cartref ar ôl 2011, yna cyfrifoldeb perchennog y cartref fydd pibelli ar y cyd fel y rhain. Petai rhwystrau neu aroglau'n digwydd yn y carthffosydd cyhoeddus hyn y mae Hafren Dyfrdwy yn berchen arnynt, fe ânt ati i ddatrys y materion hyn yn y pibelli.



## Mae arnaf angen cysylltu â Hafren Dyfrdwy ynglŷn â'r aroglau - beth sy'n digwydd nesaf?

**Cam 1: Cysylltu a Chanllawiau**

Os yw'r aroglau y tu mewn i'ch cartref neu'n dod o sinc, o'r ystafell ymolchi neu o ddraen, bron yn ddieithriad, problem yn eich plymwaith preifat chi fydd hon. Os felly, fe allwch ddefnyddio cynnyrch glanhau draeniau domestig i glirio neu i ddadflocio'r draen, ac fe ddylai hyn ddatrys y broblem. Os nad yw hyn yn gweithio, fe fydd yn rhaid ichi gael plymwr preifat neu gwmni draeniau i ymchwilio.

Os ydych yn cysylltu â ni ynglŷn ag aroglau carthion y tu allan i'ch cartref, fe wnawn helpu i ddarganfod achos yr aroglau. Os bydd angen, fe wnawn anfon un o'n harbenigwyr i wirio'ch draeniau neu'r safle trin lleol o fewn 72 awr, yn ddi-dâl.

**Cam 2: Ymweld â'ch eiddo a chanfod gwreiddyn y broblem**

Unwaith y byddwn yn eich eiddo, ac os canfyddwn fod y broblem mewn draen gyhoeddus, yna fe wna Hafren Dyfrdwy atgyweirio'r broblem, yn ddi-dâl. Os nad yw'r peirianwyr ar y safle yn gallu datrys achos yr aroglau, yna fe wnawn ddyrchafu hyn at dîm arbenigol a fydd yn cysylltu â chi ynglŷn â chamau nesaf. Efallai y gofynnwn ichi gynnal dyddiadur aroglau o amser a dyddiad yr aroglau a pha bryd y mae ar ei waethaf. Yn y modd hwn, fe allwn gadw llygad ar ein rhwydwaith a sicrhau y gallwn wneud popeth posibl i ddatrys y broblem ichi.

Os canfyddwn mai'ch draeniau chi sy'n gyfrifol am beri'r aroglau, megis rhwystr, yna eich cyfrifoldeb chi fyddai atgyweirio hyn.

**Os nad ydych gartref pan ydym yn mynychu'ch eiddo i geisio datrys y broblem aroglau, fe wnawn adael cerdyn galw fydd yn rhoi manylion pa gamau rydym wedi'u cymryd i geisio datrys y mater hwn ichi**

Gwyddom nad ydym bob amser yn taro'r nod. Os ydym wedi'ch cynghori'n flaenorol mai mater draen breifat ydyw, sydd, o wneud rhagor o ymchwiliadau, yn broblem â'n draeniau cyhoeddus ni, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, drwy www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us/, gan ddefnyddio sgwrsio byw, cyfryngau cymdeithasol, e-bost neu cysylltwch â ni drwy'n ffonio ar 0800 085 8033 cyn gynted â phosibl.

Os ydych wedi rhoi cyfarwyddiadau i blymwr lleol, ar ein cyfarwyddyd ni, i glirio rhwystr, ac mae'n dod i'r golwg mai draen gyhoeddus ydyw, anfonwch e-bost atom, os gwelwch yn dda, yn customercare@hdcymru.co.uk ac atodwch gopi o'ch cais, ac fe awn ati i ymchwilio i hyn ichi. Os nad ydych yn gallu anfon e-bost, cysylltwch â ni www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us, os gwelwch yn dda.

**Nodwch, os gwelwch yn dda, os ydych yn awdurdodi plymwr i glirio rhwystr ar ddraen gyhoeddus, cyn ein bod ni wedi cael y cyfle i fynd allan i archwilio ac i ymchwilio, ni fyddwn yn gallu ad-dalu'r gost hon ichi.**

Mae arnom eisiau i'n holl gwsmeriaid fod yn dawel eu meddwl pan ddaw hi'n fater o'u dŵr a'u gwasanaethau gwastraff. Byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein gwasanaethau'n gweithio mor llyfn â phosibl. Fodd bynnag, rydym yn gofyn ichi sicrhau bod gennych yr yswiriant cywir i ddiogelu'ch pibelli a'ch draeniau. Bydd eich yswiriwr cartref yn gallu'ch cynghori a yw'ch pibelli dŵr a'ch draeniau preifat yn cael eu cynnwys yn eich pecyn yswiriant.

Yma yn Hafren Dyfrdwy, mae arnom hefyd eisiau darparu cymorth ichi lle y gallwn, ac rydym yn deall bod arnoch chi / eich teulu weithiau angen cymorth hirdymor. Rydym yn gallu cynnig cymorth penodedig ichi drwy'ch cyfeirio at ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth (PSR) www.hdcymru.co.uk/get-intouch/join-our-priority-services-register. Mae hwn yn wasanaeth am ddim, ac mae'n golygu y gallwn ddysgu ychydig mwy amdanoch chi ac mae'n ein helpu i ddeall eich anghenion penodol.

Mae ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth yma i gynorthwyo pawb, p'un a ydych chi / aelod o'ch teulu yn wynebu afiechyd, pryderon ariannol, rhwystrau iaith neu afiechyd corfforol / seicolegol. Rydym yma i geisio darparu cymorth i chi a'ch teulu yn ystod y cyfnod hwnnw.

I ganfod mwy o wybodaeth, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us, gan ddefnyddio sgwrsio byw, cyfryngau cymdeithasol, e-bost neu cysylltwch â ni drwy'n ffonio ar 0800 085 8033, ac fe fydd un o'n cynrychiolwyr gwasanaethau cwsmeriaid yn gallu ymdrin ag unrhyw gwestiwn sydd gennych

**Mae gennyf fwy o gwestiynau am wybodaeth yn y canllaw hwn - i le y dylwn i fynd?**

**Os oes gennych ragor o gwestiynau am y canllaw uchod, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda (www.hdcymru.co.uk/help-andcontact/contact-us/) , ac fe fydd rhywun yn gallu'ch cynorthwyo ynglŷn â'ch cwestiwn.**